CYNGOR CYMUNED BRO
MACHNO

Iau, 13 Ionawr 2022 – 7.30yh
dros Zoom

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 13 Ionawr 2022** am 7.30 dros Zoom

1. Croeso, ymddiheuriadau a materion personol
2. Datgan diddordeb
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Materion yn codi o'r cofnodion
5. Gohebiaeth
6. Adroddiad cyllidol
7. Materion cynllunio
8. Materion eraill

**Presennol**:
Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd)
Claire Roberts
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies
Eifion Davies
Eryl Owain (Is-Gadeirydd)

**Ymddiheuriadau**:
Ceri Phillips
Colin Jones
Eluned McFadden
Geraint Thomas
Wyn Ellis Jones (Cynghorydd Sir)

Minutes of a meeting held on **Thursday 13 January 2022** at 7.30 over Zoom

1. Welcome, apologies and personal matters
2. Declaration of interest
3. Confirmation of minutes of the last meeting
4. Matters arising from the minutes
5. Correspondence
6. Financial report
7. Planning matters
8. Other matters

**Present:**
Dafydd Gwyndaf (Chairperson)
Claire Roberts
Daniel Tomos (Clerk)
Dylan Davies
Eifion Davies
Eryl Owain (Deputy Chairperson)

**Apologies:**
Ceri Phillips
Colin Jones
Eluned McFadden
Geraint Thomas
Wyn Ellis Jones (County Councillor)

Agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd a oedd yn dymuno blwyddyn newydd dda i bawb.

The chairperson opened the meeting and wished everybody a happy new year.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **11 Tachwedd 2021** fel rhai cywir, Claire Roberts yn cynnig ac Eryl Owain yn eilio.

**Minutes:** The minutes of the **11 November 2021** meeting were accepted as a true record, proposed by Claire Roberts and seconded by Eryl Owain.

## Materion yn codi:

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Yn dilyn y cyfarfod diwethaf cadarnhawyd bod CNC yn bwriadu plannu coed dros ben Moel Pen y Bryn. Datganwyd gwrthwynebiad cryf oherwydd y newid i dirwedd draddodiadol Penmachno. Teimlwyd yn gryf y dylai Moel Pen y Bryn aros yn "Moel".

**Toiledau Cyhoeddus: Paneli solar / System Mynediad / Offer Trydanol:** Adroddwyd nad oedd y Clerc wedi clywed dim gan y Cyngor Sir a bod y staff wedi bod allan o'r swyddfa. Penderfynwyd cadw mewn cysylltiad â'r Cyngor Sir.

**White Street:** Adroddwyd bod yr arwydd newydd *Dim Ffordd Drwodd* bellach wedi'i osod.

**Wal Mynwent Arwelfa:** Mae'r Clerc yn dal i aros am bris gan un contractwr arall. Penderfynwyd anfon copi o'r rheolau mynwent ddiweddaraf at ymgymerwyr lleol.

## Matters arising:

**Natural Resources Wales:** Following the previous meeting it was confirmed that NRW intend to plant trees over the top of Moel Pen y Bryn. Strong opposition was declared due to the change to the traditional landscape of Penmachno. It was felt strongly that Moel Pen y Bryn should remain a "Moel".

**Public Toilets: Solar panels / Door Entry System / Electrical Appliances:** It was reported that the clerk had heard nothing from the County Council and that staff had been out of the office. It was decided to keep in contact with the County Council.

**White Street:** It was reported that the new No Through Road sign is now in place.

**Arwelfa Cemetery Wall:** The Clerk is still waiting for a quote from one other contractor. It was decided to send an up-to-date copy of the cemetery rules to local undertakers.

## Materion ffyrdd:

**Pont yng nghanol Penmachno:** Mae'r Cyngor Sir yn aros am ganiatâd adeilad rhestredig cyn dechrau ar y gwaith. Bydd angen cau'r ffordd am hanner diwrnod. Er mwyn lleihau aflonyddwch mae'r contractwyr wedi awgrymu gwneud y gwaith yn gynnar ar fore Sul.

**Cerbydau'n Goryrru – Ffordd Ysbyty:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi penodi contractwr i gynnal profion diogelwch ar y ffordd a bydd yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned.

## Road:

**Bridge in the centre of Penmachno:** The County Council is waiting for listed building consent before starting work. It will be necessary to close the road for half a day. To limit disruption the contractors have suggested doing the work early on a Sunday morning.

**Speeding Vehicles – Ysbyty Road:** It was reported that the County Council has appointed a contractor to carry out road safety tests and will report back to the Community Council.

## Gohebiaeth

Dim

## Correspondence

None

## Materion Cynllunio

Dim ceisiadau cynllunio

## Planning

No planning applications

## Adroddiad Cyllidol

Nodwyd bod £10,428.76 yn y banc.

**Talwyd y biliau canlynol**: HSBC £30.01, Connect Telecom (Galwadau ffôn y clerc) £4.66, OG Evans (Mynwentydd) £1,600, E.ON £20, Eglwys Unedig Penmachno (Llogi'r Neuadd) £100, Google £8.28, Clerc Cyflog + costau £625.68

## Financial Report

It was noted that there was £10,428.76. in the bank.

**The following bills were paid**: HSBC £30.01, Connect Telecom (clerk's phone calls) £4.66, OG Evans (cemeteries) £1,600, E.ON £20, United Church of Penmachno (hire of hall) £100, Google £8.28, Clerk wages and costs £625.68

**Talwyd y canlynol i mewn**: Conwy (Llwybrau cyhoeddus) £1,200, Arian parod o'r toiled cyhoeddus £137.25, Claddedigaeth: GM Hughes £300, Conwy (*Cynllun Grant Toiledau Cymunedol*) £500, Conwy: Praesept £1,833

**Praesept:** Ar ôl dadansoddi'r cyfrifon yn fanwl penderfynwyd cynyddu praesept o £5,500 i £6,000.

**The following was paid in:** Conwy (public footpaths) £1,200, cash from public toilet £137.25, burial: GM Hughes £300, Conwy (Community toilet grant) £500, Conwy: Precept £1,833

**Precept:** After detailed analysis of the accounts it was decided to increase the precept from £5,500 to £6,000.

## Materion eraill

**Llwybr Pigin Esgob:** Adroddwyd bod y llwybr mewn cyflwr gwael a phenderfynwyd adrodd hyn i Gyfoeth Naturiol Cymru.

**Cerbyd wedi'i adael, Stryd Llewelyn:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir bellach wedi darganfod pwy sy'n berchen ar y cerbyd ac maen nhw'n dweud bod y perchennog am gadw'r cerbyd. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir, y DVLA a'r heddlu eto.

**Llys Meddyg:** Adroddwyd bod swyddog gorfodi'r Parc Cenedlaethol yn ymchwilio i'r mynediad newydd ac wedi cytuno â'r awdurdod priffyrdd ei fod yn beryglus iawn. Maent wedi ysgrifennu at berchennog yr eiddo. Penderfynwyd cadw mewn cysylltiad â'r swyddog gorfodi.

**Materion gorfodi eraill y Parc Cenedlaethol:** Penderfynwyd gofyn am ddiweddariad pellach heb weld camau gorfodi ar dri mater arall a adroddwyd i'r Parc Cenedlaethol yr haf diwethaf:
1. Ffordd wyneb caled wedi ei hadeiladu yng Nghwm Glasgwm
2. Ffordd wyneb caled wedi ei hadeiladu ar draws caeau Cae Llwyd
3. Adeilad yn cael ei godi ym mhen pellaf maes parcio hen westy'r Machno

**Rhodd Cwmni Ffilm**: Adroddwyd nad yw'r Cyngor Cymuned wedi rhoi'r £1,500 a gafwyd gan gwmni ffilm y llynedd. Cytunwyd yn unfrydol y dylid rhannu'r arian rhwng Neuadd Tŷ'n y Porth, yr Hen Ysgol a'r Shiloh. Awgrymwyd y dylai'r cyngor ymchwilio i opsiynau ar gyfer darparu mwy o finiau baw cŵn ar gyfer y pentref ond y telir amdanynt o'r arian arferol.

**Cyflog y Clerc:** Adroddwyd bod y cyflog i fod i gael ei adolygu ar ddiwedd y flwyddyn a bod gan Un Llais Cymru raddfeydd cyflog awgrymedig amrywiol sy'n cynnwys un sy'n ffitio Bro Machno: un cyfarfod bob yn ail fis / 17.5 awr y mis. Oherwydd gwaith a chyfrifoldebau'r Clerc, cytunwyd yn unfrydol bod gradd gyflog SCP 14 yn briodol

## Other matters

**Pigin Esgob track:** It was reported that the track is in a bad state and it was decided to report this to Natural Resources Wales.

**Abandoned vehicle, Llewelyn Street:** It was reported that the County Council have now found out who owns the vehicle and they report that the owner wants to keep the vehicle. It was decided to contact the County Council, the DVLA and the police again.

**Llys Meddyg:** It was reported that the National Park's enforcement officer is investigating the new access and has agreed with the highways authority that it is very dangerous. They have written to the owner of the property. It was decided to keep in contact with the enforcement officer.

**Other National Park Enforcement issues:** It was decided to ask for a further update having seen no enforcement action on three other issues that were reported to the National Park last summer:
1. A new track / road laid in Glasgwm Valley
2. A new track / road built across Cae Llwyd fields
3. A building erected at the far end of the Machno Inn car park

**Film Company Donation:** It was reported the Community Council has not yet donated the £1,500 received from a film company last year. It was agreed unanimously that the money should be shared between Neuadd Ty'n y Porth, the Old School and the Shiloh. There was a suggestion that the council should investigate options for providing more dog waste bins for the village but paid for out of usual funds.

**Clerk's Wages:** It was reported that the Clerk's wages were due to be reviewed at the end of the year and that One Voice Wales have various suggested pay scales which includes one that fits Bro Machno: one meeting every other month / 17.5 hours per month. In view of the work and responsibilities it was unanimously agreed

o fis Ebrill ymlaen. Ar hyn o bryd mae hyn yn cyfateb i £12 yr awr.

that pay grade SCP 14 was appropriate from April onwards. This currently equates to £12 per hour.

**Cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, 10 Mawrth 2022.

**Next meeting**

The next meeting will be held on Thursday 10 March 2022.